O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 493 (Cy. 116)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010.

Mae rheoliad 3 yn galluogi aelod cyfetholedig o Gyngor Iechyd Cymuned i gael ei ailbenodi ar ddiwedd ei dymor penodiad.

Mae rheoliad 4 yn dileu'r cyfnod hwyaf y caiff person wasanaethu amdano fel aelod o Gyngor Iechyd Cymuned.

Mae rheoliad 5 yn galluogi cadeirydd neu is-gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned i gael ei ailethol ar ddiwedd ei dymor am dymor pellach o hyd at ddwy flynedd.

Mae rheoliad 6 yn galluogi aelod a etholwyd yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd pwyllgor lleol Cyngor Iechyd Cymuned i gael ei ailethol ar ddiwedd ei dymor am dymor pellach o hyd at dair blynedd.

Mae rheoliad 7 yn diwygio'r tymor gwasanaeth hwyaf y caiff cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned wasanaethu ar y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned o dair blynedd i bum mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 493 (Cy. 116)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020

Gwnaed	*6 Mai 2020*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*7 Mai 2020*
Yn dod i rym	*30 Mai 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 2(a) o Atodlen 10 iddi.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mai 2020.

Diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010

2. Mae Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 42. Gweler adran 206(1) am y diffiniad o "regulations".

(**2**) O.S. 2010/288 (Cy. 37), a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/509 (Cy. 43); mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Tymor penodiad aelodau cyfetholedig

3. Yn rheoliad 5 (tymor penodiad aelodau cyfetholedig), hepgorer "a rhaid peidio â'u hailbenodi fel aelodau cyfetholedig wedi diwedd eu tymor".

Aelodau sy'n gymwys i'w hailbenodi

4.—(1) Mae rheoliad 10 (aelodau sy'n gymwys i'w hailbenodi) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3) a (4), caiff aelod" rhodder "Caiff aelod".

(3) Hepgorer paragraffau (2), (3) a (4).

Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd

5.—(1) Mae rheoliad 15 (ethol cadeirydd ac is-gadeirydd) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Ar ddiwedd ei dymor, mae aelod a etholwyd yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd yn gymwys i'w ailethol am gyfnod pellach o ddwy flynedd ar yr hwyaf, ond heb fod yn hwy mewn unrhyw achos na gweddill tymor yr aelod a etholwyd fel aelod o Gyngor."

(3) Ym mharagraff (2), ar ôl "mharagraff (1)" mewnosoder "neu'r cyfnod o ddwy flynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (1A)".

(4) Ym mharagraff (4), ar ôl "penodi" mewnosoder "nac ailbenodi".

(5) Ym mharagraff (5), ar ôl "penodi" mewnosoder "nac ailbenodi".

Penodi pwyllgorau lleol

6.—(1) Mae rheoliad 17 (penodi pwyllgorau sydd i'w hadwaen fel pwyllgorau lleol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Ar ddiwedd ei dymor, mae aelod a etholwyd yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd yn gymwys i'w ailethol am gyfnod pellach o dair blynedd ar yr hwyaf, ond heb fod yn hwy mewn unrhyw achos na gweddill tymor yr aelod hwnnw fel aelod o'r Cyngor perthnasol."

(3) Ym mharagraff (2), ar ôl "penodi" mewnosoder "nac ailbenodi".

Cymhwyster aelodau o'r bwrdd i'w hailbenodi

7.—(1) Mae rheoliad 35 (cymhwyster Aelodau o'r Bwrdd i'w hailbenodi ar y Bwrdd CIC) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn lle "baragraffau (1)(a) a (b)" rhodder "baragraff (1)(a)";

(b) yn lle "dair blynedd" rhodder "bum mlynedd".

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1ZA) Caiff aelod o'r Bwrdd a benodir o dan baragraff (1)(b) o reoliad 34 wasanaethu am gyfnod o dair blynedd fan hwyaf."

(4) Ym mharagraff (2), yn lle "dair blynedd" rhodder "bum mlynedd".

(5) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2ZA) Wrth gyfrifo'r cyfnod o dair blynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (1ZA) rhaid cyfuno pob cyfnod o wasanaeth fel aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys pob cyfnod o wasanaeth cyn 1 Ebrill 2010 a phob cyfnod o wasanaeth o ganlyniad i unrhyw benodiad o dan baragraff (1)(a) i (dd) o reoliad 34."

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Mai 2020